

GWEITHIWR CEFNOGI A CHYNGHORI

TGP Cymru yw'r brif elusen yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant a phobl ifanc agored i niwed drwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Mae gwasanaethau TGP Cymru yn cael eu hariannu gan nifer o gyllidwyr ac maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru.



Adran TGP Cymru: Gwasanaethau Teuluol

Yn atebol i: Cydlynnydd Gwasanaeth Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Lleoliad: Gogledd Cymru efo teithio cyson ledled Cymru (rheolau Covid-19 yn caniatáu)

Diben y swydd:

I ddatblygu, darparu a chydlynu'r gwasanaeth i ymateb i anghenion teuluoedd Roma mudol yr UE, gan fynd ati'n benodol i wneud y canlynol

Atebolrwydd / Cyfrifoldebau

- Codi ymwybyddiaeth cymunedau Roma o'r gwasanaeth a'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE
- Datblygu gwybodaeth ddealladwy yn ieithoedd y cymunedau
- Cynnal sesiynau cynghori/ymgysylltu rheolaidd i aelodau o'r gymuned Roma gan weithio gyda sefydliadau partner lle bo'n briodol
- Cefnogi teuluoedd Roma i lenwi gwaith papur y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE
- Cynorthwyo Rheolwr y Tim i asesu deilliannau'r Gwasanaeth yn unol â'r fframwaith o ddeilliannau y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth
- Cydymffurfio â systemau ariannol a gweinyddol y Gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac arferion gwrth-wahaniaethol drwy'r gwaith a wneir yn y swydd
- Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill a allai fod yn ofynnol yn rhesymol gan y Sefydliad ac sy'n gyson â gradd y swydd.
- Rhwydweithio'n briodol gyda chydweithwyr a'r gymuned, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau TGP Cymru ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol

Dangosyddion Perfformiad

- Yn gyfrifol am gyflawni dangosyddion perfformiad a safonau arfer allweddol
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth yn erbyn safonau a gofynion statudol, rheoliadol, sefydliadol ac arfer gorau
- Cyflawni amcanion a thargedau gwasanaeth ac unigol

Cyfrifoldebau eraill

0

Cyfrifoldeb rheoli llinell

0

Cyfrifoldeb rheoli'r gyllideb

£0

Gradd

MS7

Amodau gwaith

30 awr yr wythnos gydag ymagwedd hyblyg tuag at yr wythnos waith fydd yn cynnwys gwaith ar benwythnosau a gyda'r nos ac ar adegau aros i ffwrdd dros nos er mwyn mynd i gyfarfodydd, cynadleddau neu i gael hyfforddiant.

Bydd hefyd yn ofynnol ichi deithio i leoliadau amrywiol ar draws Gogledd Cymru a'r DU – Rheolau Covid-19 yn caniatáu.

Cymwysterau

- Cymhwyster OISC Lefel 1 neu'r gallu i gyflawni hyn mewn 3 mis
- Cymhwysedd proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol neu ddisgyblaeth berthnasol megis Iechyd ac Addysg (dymunol)

Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- Cynhyrchu canlyniadau o safon mewn modd amserol ac sy'n canolbwyntio ar wasanaeth ac yn ymrwymedig i gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt
- Gweithio'n dda gyda chyd-weithwyr a phartneriaid a chydabod syniadau, safbwyntiau a chefnidiroedd eraill
- Cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- Cyfathrebu'n effeithiol e.e. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; gwrandao'n astud a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn bositif i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol

Gwybodaeth / Profiad

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a chofnod o gyflawni yn y canlynol:

- Gweithio efo plant / pobl ifanc ac oedolion yn y gymuned
- Gweithio efo oedolion, pobl ifanc a phlant Roma (Dymunol)
- Gwybodaeth am y materion sy'n effeithio oedolion, pobl ifanc a phlant Roma mudol yn y DU
- Gwybodaeth am yr ieithoedd y mae cymunedau Roma yn eu defnyddio

- Rhuglder mewn un neu fwy o'r ieithoedd dwyrain Ewrop y mae'r cymunedau Roma mudol yn eu siarad (Tsieceg, Pwyleg, Romanes, Rwmaneg, Slofac) (Dymunol)
- Cynllunio, arwain a chyflwyno gwaith yn uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a / neu oedolion mewn modd lle gallan nhw gymryd rhan
- Cyflwyno gwybodaeth / rhoi cyngor yn broffesiynol
- Diogelu

Arall

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru ar bob adeg a'u hybu mewn eraill
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Trwydded yrru lawn a bod â cherbyd gennych chi (*Mewn rhai achosion bydd ymgeiswyr sy'n methu â gyrru o ganlyniad i anabledd yn cael eu hystyried ar gyfer y swydd.*)
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol)